

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19 a 2019/20

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg ym Merthyr Tudful yw Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Hedley ac mae'n rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Mae gan yr ysgol 519 o ddysgwyr ar y gofrestr: mae 20.6 y cant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim; mae gan 28.5 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 27.7 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol; ac mae 20 y cant yn ddysgwyr graddau A* ac A byd-eang, yr ystyrir eu bod yn fwy galluog a thalentog. Rhaniad rhyw yr ysgol yw 46 y cant yn fechgyn a 54 y cant yn ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys 22 o aelodau staff. Mae 29.8 o athrawon yn Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Hedley, yn ogystal â 5.6 o gynorthwyyr addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £11,694 ar gyfer y cyfnod rhwng 2018/19 a 2019/20.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Hyfforddiant staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd – Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Cynhaliodd yr ysgol archwiliad o sgiliau digidol y staff gan ddefnyddio Aspire2be i ddarganfod y lefel bresennol o ddysgu proffesiynol sydd ei hangen i fodloni gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Ar ôl gwerthuso'r canlyniadau, penderfynodd yr ysgol ddefnyddio £8,000 o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol i hyfforddi staff i ddefnyddio Google for Educators i gynyddu cymhwysedd digidol a hyder.

I gychwyn, nodwyd ugain o aelodau staff i gyflawni'r hyfforddiant ac fe'u rhannwyd yn grwpiau Google ac iPad ar wahân. Caniataodd hyn i'r hyfforddeion fod yn hyfforddwyr yn yr ysgol yn y pen draw, i rannu gwybodaeth a hyfforddi aelodau eraill o staff.

Cyflwynodd yr ysgol Google for Educators yn llwyddiannus gyda phob athro yn creu rhith-ystafell ddosbarth Google ar gyfer pob dosbarth yr oedden yn ei addysgu. Roedd yr athrawon yn gallu creu a marcio aseiniadau yn electronig gan roi a chofnodi adborth ar unwaith. Cafodd cyfleuster cysylltu â rhieni ei gynnwys hefyd a oedd yn hysbysu rhieni/gofalwyr drwy e-bost pan roddwyd aseiniad gwaith cartref, gan wella'r ymgysylltu rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr.

Rhoddodd yr arian grant ychwanegol y gallu i'r ysgol ariannu'r hyfforddiant digidol heb aberthu dysgu proffesiynol arall a nodwyd o brosesau rheoli perfformiad.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Galluogodd gweithrediad Google for Educators y staff i weithio'n fwy clyfar ac yn fwy effeithlon, a chafodd hefyd effaith gadarnhaol wirioneddol ar ddysgu ac addysgu. Fe wnaeth hefyd ganiatáu llif effeithiol a diogel o ddata rhwng adrannau a arweiniodd at wneud penderfyniadau yn gyflymach ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Fe wnaeth defnyddio Google for Educators yn helaeth ar draws yr ysgol helpu i baratoi'r staff i fynd i'r afael ag elfennau o'r cwricwlwm newydd, sef y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a gwahanol ddimensiynau'r pedwar diben yn benodol.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae effaith y cyllid grant wedi galluogi dysgwyr i ddysgu yn unol â'r datblygiadau technolegol yn y gymdeithas sydd ohoni. Roedd rhai o'r manteision yn cynnwys:

- y gallu i weithio ar eu cyflymder eu hunain
- adborth ar unwaith gan athrawon
- mynediad hawdd trwy wneud y ffeil ar gael ar eu gyriant rhwydwaith eu hunain
- fersiwn Google o raglenni brosesu geiriau, taenlenni, cyflwyniadau
- gwell cyfathrebu ag athrawon.

Aeth cyflwyniad Google for Educators y tu hwnt i fodloni gofynion dysgwyr o ran datblygu eu sgiliau cymhwysedd digidol. Cysylltwyd arweinwyr digidol dysgwyr gydag adrannau gan hyfforddi grwpiau o ddysgwyr newydd, datblygu eu sgiliau cydweithredu a gwella eu hyder i weithio gyda dysgwyr y tu allan i'w grŵp blwyddyn ac o ysgolion eraill. O ganlyniad, ymgysylltodd dysgwyr ag Erasmus + mewn prosiect Dawns Robot ochr yn ochr â disgyblion yn y Ffindir a Sbaen, gan ennill profiad dysgwyr gwerthfawr nid yn unig yn academiaidd ond yn gymdeithasol hefyd.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Cafodd y gallu i gyflwyno'r hyfforddiant digidol fel dull ysgol gyfan effaith enfawr ar Ysgol Uwchradd Gatholig Bishop Hedley. Gan fod dysgwyr wedi cael eu cynnwys ar yr un pryd â hyfforddi'r athrawon, roedd y staff yn gallu gweld effaith gadarnhaol ddi-oed dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Roedd y ddarpariaeth o gyllid dysgu proffesiynol ychwanegol i fynd i'r afael ag elfen o Genhadaeth ein Cenedl yn hynod werthfawr wrth baratoi staff a dysgwyr ar gyfer gofynion y cwricwlwm newydd.